CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**07.09.23**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** JOJ (Cadeirydd) DAW ; RY; EY; RJ; DP; IW; EO;LLMH; GW; AR<br><br>**Ymddiheuriadau:** TAJ; JAJ; GW; AR<br><br>**Yn mynychu:** SWR<br><br>Nododd y Cadeirydd bod Cyng GW ddim yn dda ei iechyd ac fe anfonwyd dymuniadau gorau iddo am wellhad buan. Croesawyd RJ i'r cyfarfod gan nodi balchder ei fod yntau wedi gwella. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br><br>Datganodd DAW ddiddordeb mewn materion eiddo gan ei fod yn gyflogai i Cwmni Eiddo ein Asiant - Rhys Jones |
| **3** | **Cofnodion 06.07.23** Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 06.07.23 fel rhai cywir (EO/DP)<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>• Ethol Is Gadeirydd – ymlaen i Hydref (IW/DW)<br><br>• Cynllun Gweithredu Priffyrdd – cytunwyd i ychwanegu pryder am sefyllfa gweithredu 20 mya yn arbennig trwy bentref Rhosmeirch.<br><br>• Arwydd 'Croeso i Llannerchymedd' - ochr Carmel wedi ei ddwyn dros y penwythnos. Nodwyd anghrediniaeth a siom. Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn rhif digwyddiad troseddol gan yr Heddlu. Clerc i ofyn i'r Heddlu ymweld a thafarndai'r pentref i holi am unrhyw wybodaeth berthnasol. Cytunodd EY i roi datganiad ar dudalen Facebook yn nodi siom CC Llan. |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG**
Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Clerc i holi am gost ail osod a chymorth yswiriant.<br>• Cae Astro – nododd y Clerc bod y goliau wedi eu trwshio bellach. Dim bil i law.<br><br>Derbyniwyd nodiadau cyfarfod ychwanegol 20.7.23<br>Derbyniwyd nodiadau cyfarfod ychwanegol 30.8.23 (IW/EO)<br><br>Diweddaru'r Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 07.09.23 |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>• Effaith negyddol ceisiadau cynllunio ar yr Iaith Gymraeg – ymlaen i gyfarfod mis Hydref.<br>• Gosod arwydd ym Maes Athen – nododd RY bod cynnydd yn y drafnidiaeth trwy Maes Athen o holodd os oes modd gosod arwyddion rhybudd bod plant yn chwarae ar y safle. Clerc i holi CSYM yn y man cyntaf.<br>• Adroddod y Clerc bod angen nwy i'r Caffi. Cytunwyd i Carolyn Owen archebu yn ôl ei harfer ac i C C llan ad-dalu iddi maes o law. Bydd cyflenwad ar gyfer y tenant newydd a dylid nodi hyn yn y cytundeb fydd yn dilyn.<br><br>Materion ar gais Ysgol Llan –<br>• Mygiau dathlu'r Coroni – awgrymwyd i roi'r mygiau sydd weddill yn rhodd i lolfa Tan y Foel. Cynigiodd RYac fe eilwyd gan DAW, cytunwyd yn unfrydol, namyn un bleidlais wedi ei hatal. Clerc i weithredu<br>• Cais i osod bin yn y cae Astro – cytunodd DAW/RJ i wneud ymweliad safle i adolygu safleodd cyfredol biniau y pentref.<br>• Cais i aelod CC Llan ddod at y Cyngor Ysgol am sgwrs ar faterion o fewn y pentref. Cytunwyd i ofyn i TAJ fynychu<br><br>• Mynegwyd pryder bod bagiau i ddal baw ci yn gostus. Clerc i ymchwilio i ddarparwyr amgen |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Gorffennaf** –<br><br>J Alun Foulkes – ffioedd archwiliad mewnol y cyfrifon 150.00<br>Dragon Fire – archwiliad 6 mis cyfarpar tân 57.60<br>Linda Jones – ad-daliad cerflun Cae Gofeb 213.95<br>HMRC – cyflog Clerc ¼ cyntaf 174.60<br>Huws Gray – stwff i lenwi tyllau 15.30 X 2 15.30<br>15.30 |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | | |
|---|---|---|
| | Rhys Jones – ffioedd Asiant Eiddo<br>CSYM – les Cae Astro<br>Scottish Power – trydan Uned 1 Meh – Gorff<br>Wybone – bagiau baw ci<br>Cyflog Clerc Gorffennaf & 1 taliad ZOOM<br>Cyflog Clerc Awst & 1 taliad ZOOM<br>Dragon Fire – newid golau arfyfwng X 9<br>Scottish power – trydan Uned 1 Gorff – Awst<br>ROSPA – archwuliad blynyddol caeau chwarae<br>Scottish Power – golau Dolig NODER : Clerc i holi am gost dagysylltu'r cyflenwad<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>Cyflog Clerc Medi gyda 1 taliad ZOOM<br>Dwr Cymru – ar gyfer Unit 2 dros gyfnod 12 mis<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £ 15906.25<br>Cyfrif Cadw: £ 8456.97<br><br>**Lwfans Cynghorwyr – 2023**<br>Cyferiodd y Clerc at y broses ar gyfer yr hawliad uchod. Dosbarthwyd ffurflen bwrpasol i wneud hawliad gan ofyn i'r aelodau gyflwyno i'r Clerc ar ddiwedd y cyfarfod. | 260.00<br>117.30<br>68.20<br>122.38<br>506.28<br>506.28<br>496.80<br>75.57<br>450.00<br>158.76<br><br>£<br>506.28<br>362.76 |
| 7 | **Materion Cynllunio –** dim i law | |
| 8. | **Adroddiad Cynghorwyr Sir**<br><br>• Concrid RAAC – cafwyd diweddaraid ar y sefyllfa gyda concrid RAAC yn adeiladau'r Cyngor Sir. Dywedodd bod archwiliadau yn cael eu gweithredu eisoes yn flynyddol ond bod y Llywodraeth ganolog wedi ychwanegu meini prawf archwiliadau ar 30 Awsr 2023. Nododd bod arbenigwyr wedi eu pendoi i ymgymryd a'r archwiliadau statudol.<br><br>• Cyllideb CSYM – nododd bod rhwng £8 - £10 miliwn o ddiffyg yn cael ei ddarogan yn y gyllideb gyfredol. Dywedodd bod CSYM wedi arbed £30 miliwn yn y deg mlynedd ddiwethaf a | |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | bod prinder lle i dori ymhellach. Nodwyd hefyd bydd archwilio ac ymateb i ofynion RAAC yn arian at gostau ychwanegol annisgwyl. |
| **9** | **Materion Safleoedd**<br>• Cae Gofeb – angen gwirio os yw'r gwrychyn wedi ei adfer ac os ydi'r fainc wedi ei hail-leoli<br>• Unedau Tan y Foel – cytunodd LLMH i holi Pennaeth Eiddo CSYM os oes modd cael cymorth/arweiniad ar lunio opsiynau dichonodeb.<br>• Safle'r Stesion<br>    • Gosod y Caffi - nodwyd bod 6 wedi dangos diddordeb a bod 3 wedi ymweld a'r safle gyda'r 3 arall yn cael 'run cynnig.<br>    • Cyfeiriodd y Clerc at ebost a gylchredwyd eisioes am ffioedd/telerau Rhys Jones i weinyddu cytundeb y Caffi yn dilyn penodi tenant. Nodwyd bydd RhJ yn pontio'r cyswllt rhwng y tenant a CC Llan a derbyn y rhent yn fisol gan drosglwyddo i'r Cyngor namyn y ffi o 10%. Nodwyd bydd hyn yn fodd o sicrhau cysondeb a thrylowyder. Cytunwyd yn unfrydol i delerau a ffi Mr Jones. Clerc i gadarnhau yn ffurfiol<br>• Lawnt Fowlio – Clerc i drefnu cyfarfod rhwng y 5 aelod Clwb Bowlio a EO/TAJ/JAJ a'r Cadeirydd i drafod camau nesaf.<br>• Mynwentydd - dim i law<br>• Clwb Peldroed - dim i law<br><br>Nodwyd bod Siop y pentref, bellach yn Morrisons Daily, yn agor ar 15.9.23 yn dilyn ailwampio. |
| **10.** | **Gohebiaeth**<br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel a nodwyd – dim sylwadau pellach. |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8:30* |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383